
Gwybodaeth i fyfyrwyr ac addysgwyr

Canllawiau ar
ymddygiad a
moeseg i fyfyrwyr

Cynnwys

Ynglŷn â'r ddogfen hon 4

Cyflwyniad 5

Ynglŷn â'r canllawiau hyn 8

Canllawiau ar ymddygiad a moeseg i fyfyrwyr 12

Rhagor o wybodaeth 18

Geirfa 19

Dylai myfyrwyr:

- hyrwyddo a diogelu buddiannau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr;
- cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol;
- gweithio o fewn terfynau eu gwybodaeth a'u sgiliau;
- dirprwyo'n briodol;
- parchu cyfrinachedd;
- rheoli risg;
- adrodd am bryderon ynghylch diogelwch;
- bod yn agored pan aiff pethau o chwith;
- bod yn onest ac yn ddibynadwy; a
- cadw cofnodion o'u gwaith gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.

Ynglŷn â'r ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth i fyfyrwyr ar raglenni addysg a hyfforddiant rydym yn eu cymeradwyo (rhaglenni cymeradwy) ynghylch ein safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg. Rydym yn gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol yn ystod eich hyfforddiant ac unwaith y byddwch yn gweithio.

Efallai y bydd y ddogfen hon yn ddefnyddiol i chi os ydych yn:

- myfyriwr sy'n astudio i fod yn aelod o broffesiwn rydym yn ei reoleiddio;
- aelod o staff academaidd sy'n addysgu myfyrwyr ar raglen gymeradwy;
- aelod o staff darparwr addysg sy'n ymwneud ag ymdrin â phryderon am ymddygiad myfyriwr;
- addysgwr neu oruchwyliwr lleoliad ymarfer;
- cyflogwr sy'n darparu lleoliadau ymarfer i fyfyrwyr yn ystod eu hyfforddiant; neu
- defnyddiwr gwasanaeth neu ofalwr sy'n derbyn neu'n cael ei effeithio gan ofal, triniaeth neu wasanaethau eraill myfyriwr yn ystod ei hyfforddiant. Nid yw hon yn rhestr lawn, ond fe ddylai helpu i roi syniad i chi a fydd y ddogfen hon yn eich helpu ai peidio.

Cyflwyniad

Ynglŷn â ni

Ni yw'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC), rheolydd a sefydlwyd i amddiffyn y cyhoedd. I wneud hyn, rydym yn cadw cofrestr o weithwyr iechyd a gofal proffesiynol sy'n bodloni ein safonau o ran eu hyfforddiant, eu sgiliau proffesiynol a'u hymddygiad.

Gelwir gweithwyr proffesiynol ar ein Cofrestr yn 'gofrestreion'. Ar hyn o bryd rydym yn rheoleiddio'r proffesiynau a ganlyn:

- Therapyddion celf
- Gwyddonwyr biofeddygol
- Ciropodyddion / podiatryddion
- Gwyddonwyr clinigol
- Deietegwyr
- Dosbarthwyr cymhorthion clyw
- Therapyddion galwedigaethol
- Ymarferwyr adrannau llawdriniaeth
- Orthoptyddion
- Parafeddygon
- Ffisiotherapyddion
- Ymarferwyr seicolegwyr
- Prosthetyddion / orthotyddion
- Radiograffwyr
- Therapyddion lleferydd ac iaith

Mae gan bob un o'r proffesiynau hyn un teitl neu fwy sy'n cael ei warchod gan y gyfraith (fel 'ffisiotherapydd' a 'dietegydd'). Mae unrhyw un sy'n camddefnyddio teitl gwarchodedig yn torri'r gyfraith a gallai gael ei erlyn.

Rhan bwysig arall o'n rôl yw ystyried unrhyw bryderon a godir am ein cofrestreion i benderfynu a ydynt yn 'addas i ymarfer'. Pan ydym yn dweud bod rhywun yn 'addas i ymarfer' rydym yn golygu bod ganddynt y sgiliau, y wybodaeth, y cymeriad i ymarfer eu proffesiwn yn ddiogel ac yn effeithiol.

Rydym yn edrych ar bob pryder i benderfynu a oes angen I ni weithredu ai peidio. Yn seiliedig ar y wybodaeth rydym wedi ei chasglu efallai y byddwn yn cynnal gwrandawriad i benderfynu a yw rhywun yn addas i ymarfer.

Rydym hefyd yn gosod safonau ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus (DPP), y mae'n rhaid i bob cofrestrai eu bodloni. Mae bodloni'r safonau hyn yn cefnogi gweithwyr proffesiynol yn eu dysgu a'u datblygiad ar ôl iddynt gofrestru fel y gallant barhau i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol.

Sut mae'r HCPC yn cael ei redeg

Cawsom ein creu gan Orchymyn Proffesiynau Iechyd 2001, sy'n nodi'r pethau y mae'n rhaid i ni eu gwneud ac sy'n rhoi ein pŵer cyfreithiol i ni. Mae gennym gyngor sy'n cynnwys unigolion cofrestredig ac aelodau lleyg. Mae'r Cyngor yn gosod ein strategaethau a pholisïau ac yn gwneud yn siŵr ein bod yn cyflawni ein cyfrifoldebau o dan Orchymyn Proffesiynau Iechyd 2001.

Safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg

Rydym yn gosod safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg sy'n berthnasol i'r gweithwyr proffesiynol rydym yn eu rheoleiddio ac yn nodi'n fras sut rydym yn disgwyl i'n cofrestreion ymddwyn. Byddwch yn dysgu am y safonau hyn ar eich rhaglen.

Mae'r safonau hefyd yn berthnasol i bobl sy'n gwneud cais i gofrestru gyda ni. Yn yr achos hwn byddwn yn gofyn i chi lofnodi datganiad i gadarnhau eich bod wedi darllen, ac yn cadw at, y safonau unwaith y byddwch wedi cofrestru.

Mae'r safonau'n ein helpu i wneud penderfyniadau am gymeriad y bobl sy'n gwneud cais i ymuno â'n Cofrestr ac mewn achosion lle byddwn yn penderfynu a yw rhywun yn addas i ymarfer.

Cymeradwyo rhaglenni addysg

Rydym hefyd yn asesu rhaglenni addysg yn erbyn ein safonau addysg a hyfforddiant. Os yw rhaglen yn bodloni ein safonau, rydym yn ei chymeradwyo ac mae'r myfyrwyr sy'n cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus yn gymwys i wneud cais i gofrestru gyda ni.

Ein Cofrestr

Mae bod ar ein Cofrestr yn dangos eich bod yn bodloni ein safonau ar gyfer eich proffesiwn.

Mae ein Cofrestr yn dangos i'r cyhoedd bod y gweithwyr proffesiynol hyn yn addas i ymarfer, ac bod ganddynt hawl i ddefnyddio'r teitl gwarchoddedig ar gyfer eu proffesiwn. Mae'n dangos bod y bobl ar ein Cofrestr yn rhan o broffesiwn sydd â safonau a gydnabyddir yn genedlaethol sydd wedi'u gosod gan y gyfraith.

Mae ein Cofrestr ar gael ar ein gwefan yn www.hcpc-uk.org/check ac mae'n eich galluogi i chwilio ar-lein am weithiwr iechyd a gofal proffesiynol cofrestredig.

Gwneud cais i fod ar ein Cofrestr

Nid yw cwblhau rhaglen gymeradwy yn gwarantu y byddwch yn cael eich cofrestru. Ond mae'n dangos i ni eich bod yn bodloni ein safonau proffesiynol ar gyfer cofrestru ac felly rydych yn gymwys i wneud cais. Mae arnom angen mwy o wybodaeth gennych er mwyn gallu eich cofrestru.

Pan ydych yn gwneud cais am y tro cyntaf i ymuno â'n Cofrestr, fel rhan o'ch cais mae angen i chi anfon gwybodaeth atom sy'n cynnwys copiâu o ddogfen adnabod berthnasol a datganiad ynghylch eich iechyd a datganiad ynghylch eich cymeriad. Mae hyn yn cynnwys a oes gennych unrhyw rybuddion neu euogfarnau.

Nid yw Deddf Adsefydlu Troseddwy'r 1974 yn berthnasol i gais i ymuno â'n Cofrestr. Mae hyn yn golygu bod rhaid i chi ddweud wrthym am unrhyw rybuddion ac euogfarnau a allai fod gennych, gan gynnwys y rhai yr ystyrir eu bod 'wedi'u disbyddu' o dan y Ddeddf (heblaw am rybuddiad gwarchoddedig neu euogfarn warchoddedig).

Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd y wybodaeth a roddwch i ni am eich cymeriad yn effeithio ar ba un a ydym yn eich cofrestru ai peidio. I gael rhagor o wybodaeth am wneud cais i gofrestru a darparu gwybodaeth berthnasol am gymeriad, darllenwch ein canllawiau ar iechyd a chymeriad sydd ar gael ar ein gwefan¹.

Mae'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnom gennych chi yn ein helpu i sicrhau:

- chi yw pwy rydych chi'n dweud ydych chi;
- eich bod yn bodloni ein safonau; a
- gallwn gysylltu â chi os bydd angen.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y broses ymgeisio ar ein gwefan².

¹ www.hcpc-uk.org/resources/guidance/guidance-on-health-and-character

² www.hcpc-uk.org/uk

Ynglŷn â'r canllawiau hyn

Mae'r canllawiau hyn yn seiliedig ar safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg. Gobeithiwn y bydd y canllawiau hyn yn eich gwneud yn fwy cyfarwydd â'r safonau hyn a'u bod yn darparu gwybodaeth ychwanegol am rai o'r materion y gallech ddod ar eu traws wrth i chi gwblhau eich rhaglen gymeradwy. Er nad ydym yn rheoleiddio myfyrwyr, rydym yn disgwyl iddynt ddeall ein safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg wrth baratoi ar gyfer eu cofrestru.

Mae'r penawdau rydym yn eu defnyddio yn yr adran ganlynol o'r ddogfen hon wedi'u cymryd o'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg. O dan bob pennawd rydym wedi darparu pwyntiau bwled sy'n rhoi canllawiau ar sut mae'r safonau'n berthnasol i chi fel myfyrwyr. Nid yw'r canllawiau'n rhoi atebion i bob sefyllfa y gallech ei hwynebu. Fodd bynnag, rydym yn gobeithio y byddant yn eich helpu ac yn eich annog i ofyn am wybodaeth ychwanegol gan eich darparwr addysg neu ddarparwr lleoliadau ymarfer (os yw'n briodol).

Yn aml mae gan ddarparwyr addysg a darparwyr lleoliadau ymarfer eu polisiâu a'u gweithdrefnau eu hunain y dylech chi eu dilyn hefyd. Rydym hefyd yn cydnabod rôl bwysig darparwyr addysg a darparwyr lleoliadau ymarfer o ran galluogi a chefnogi myfyrwyr i fodloni'r canllawiau.

Dirprwyo

Rydym yn cydnabod y bydd mater dirprwyo yn fwy perthnasol i rai myfyrwyr nag eraill ac yn enwedig y rhai sy'n cyrraedd diwedd eu rhaglen gymeradwy. Bydd y myfyrwyr hyn wedi datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth dros gyfnod estynedig a all eu galluogi i ddirprwyo rhai tasgau dan amodau penodol. Cofrestrai sy'n gyfrifol yn y pen draw am y tasgau a ddirprwywyd gan fyfyrwr o dan ei oruchwyliaeth fel y nodir yn y safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg (safon 4.2).

Iaith

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i bob myfyrwr cyn belled ag y bo modd. Rydym yn cymeradwyo ystod eang o raglenni, felly mae myfyrwyr yn cymryd rhan mewn llawer o leoliadau gyda modelau goruchwyllo amrywiol. Rydym wedi ceisio defnyddio geiriau ac iaith y gall pawb eu deall.

Mae'r iaith a ddefnyddir yn y canllawiau yn chwarae rhan bwysig wrth wahaniaethu rhwng cwmpas ymarfer a disgwyliadau myfyrwyr a darpar fyfyrwyr a rhai cofrestreion a darpar gofrestreion. Rydym yn defnyddio'r ferf 'dylai' yn hytrach na 'rhaid' yn y canllawiau, i adlewyrchu'r ffaith nad ydym yn rheoleiddio myfyrwyr. Mae hyn yn wahanol i'r iaith a ddefnyddir yn y safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg.

Rydym wedi defnyddio'r term 'myfyriwr' drwy'r ddogfen hon i gyfeirio at unrhyw un sy'n astudio ar raglen addysg a hyfforddiant gymeradwy sy'n arwain iddynt fod yn gymwys i wneud cais i ymuno â'n Cofrestr. Mae hyn yn cynnwys hyfforddeion, ymarferwyr sy'n hyfforddi neu bobl eraill sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant. Mae'r gair 'rhaglen' yn golygu rhaglen addysg a hyfforddiant gymeradwy.

Drwy gydol y canllawiau hyn rydym wedi defnyddio 'defnyddwyr gwasanaeth' i gyfeirio at unrhyw un sy'n defnyddio neu'n cael ei effeithio gan waith cofrestreion neu fyfyrwyr, er enghraifft, cleifion a chleientiaid. Rydym wedi defnyddio 'gofalwr' i gyfeirio at unrhyw un sy'n gofalu am, neu'n darparu cymorth i, aelod o'r teulu, partner neu ffrind.

Rydym yn deall y gall myfyrwyr gymryd nifer o gamau gweithredu i, ar gyfer, ar neu gyda defnyddiwr gwasanaeth wrth gwblhau eu rhaglen gymeradwy gan gynnwys eu lleoliad ymarfer. Gall hyn gynnwys gweithdrefnau diagnostig neu fonitro, therapi neu gyngor. Rydym wedi cyfeirio at gamau gweithredu o'r fath yn y canllawiau fel 'gofal, triniaeth neu wasanaethau eraill'.

Ymddygiad personol a phroffesiynol

Ar eich rhaglen cewch gyfle i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnoch i ddod yn weithiwr proffesiynol mewn amgylchedd sy'n amddiffyn y cyhoedd. Mae gennych hefyd gyfle i ddysgu am yr ymddygiad y mae'r cyhoedd yn ei ddisgwyl gan gofrestrai.

Fel myfyriwr sy'n astudio i fod yn weithiwr proffesiynol mewn proffesiwn a reoleiddir, mae gennych rai cyfrifoldebau. Ar eich rhaglen bydd disgwyl i chi fodloni safonau uchel o ymddygiad a moeseg.

Dylech fod yn ymwybodol, mewn amgylchiadau difrifol iawn, y gallai eich ymddygiad effeithio ar eich gallu i:

- cwblhau eich rhaglen;
- ennill y cymhwyster terfynol; neu
- cofrestru gyda ni³.

³ www.hcpc-uk.org/set

Mae gan bob un o'n rhaglenni cymeradwy brosesau ar waith ar gyfer ymdrin â phryderon ynghylch ymddygiad myfyriwr. Mae hyn yn golygu y gall camymddwyn effeithio ar eich gallu i gwblhau eich rhaglen. Gallwch lawrlwytho ein safonau addysg a hyfforddiant oddi ar ein gwefan.

Canllawiau ar ymddygiad a moeseg
i fyfyrwyr

1. Hyrwyddwch a diogelu buddiannau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr

- Dylech drin defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr fel unigolion, gan barchu eu preifatrwydd a'u hurddas.
- Dylech sicrhau bod gennych ganiatâd dilys, sy'n wirfoddol ac yn wybodus, gan ddefnyddwyr gwasanaeth sydd â'r gallu i wneud y penderfyniad neu awdurdod priodol arall cyn i chi ddarparu unrhyw ofal, triniaeth neu wasanaethau eraill.
- Dylech ddilyn polisi eich darparwr addysg neu ddarparwr lleoliadau ymarfer ar ganiatâd.
- Dylech sicrhau bod y defnyddiwr gwasanaeth yn ymwybodol eich bod yn fyfyrwr cyn i chi ddarparu unrhyw ofal, triniaeth neu wasanaethau eraill.
- Dylech barchu hawl person i gael gweithiwr proffesiynol ac nid myfyriwr i gael gofal, triniaeth neu wasanaethau eraill.
- Dylech drin pobl yn deg a bod yn ymwybodol o'r effaith bosibl y gallai eich gwerthoedd, rhagfarnau a credau personol ei chael ar ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ac yn eich rhyngweithiadau â chydweithwyr.
- Dylech gymryd camau i sicrhau nad yw eich gwerthoedd, rhagfarnau a chredau personol yn eich arwain i wahaniaethu yn erbyn defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr neu gydweithwyr. Ni ddylai eich gwerthoedd, rhagfarnau a chredau personol effeithio'n andwyol ar y gofal, y driniaeth neu'r gwasanaethau eraill a ddarperir gennych.
- Dylech gadw cydberthnasoedd â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn broffesiynol gan gynnwys defnyddio'r dulliau cyfathrebu priodol i ddarparu gofal, triniaeth neu wasanaethau eraill.
- Ni ddylech gamddefnyddio eich safle fel ymarferydd iechyd a gofal dan hyfforddiant i ddilyn perthnasoedd personol, rhywiol, emosiynol neu ariannol gyda defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, dysgwyr eraill neu aelodau o staff eich darparwr addysg a darparwr lleoliadau ymarfer.

2. Cyfathrebwch yn briodol ac yn effeithiol

- Dylech fod yn gwrtais ac ystyriol tuag at ddefnyddwyr gwasanaeth, myfyrrwyr eraill a staff eich darparwr addysg a darparwr lleoliadau ymarfer.

- Dylech wrando ar ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ac ystyried eu hanghenion a'u dymuniadau wrth ddarparu unrhyw ofal, triniaeth neu wasanaethau eraill.
- Dylech gymryd pob cam ymarferol i ddiwallu anghenion iaith a chyfathrebu defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.
- Dylech gyfathrebu'n effeithiol a chydweithio ag aelodau o staff eich darparwr addysg a'ch darparwr lleoliadau ymarfer er budd defnyddwyr gwasanaeth a chynhalwyr.
- Dylech ddangos parch ac ystyriaeth i ddysgwyr eraill ac aelodau o staff eich darparwr addysg a darparwr lleoliadau ymarfer.
- Os ydych yn cael unrhyw anawsterau neu faterion eraill a allai effeithio ar eich dysgu neu eich gallu i gymryd rhan yn llwyddiannus yn eich rhaglen, dylech ddweud wrth eich darparwr addysg a darparwr lleoliadau ymarfer.
- Dylech ddefnyddio pob math o gyfathrebu yn briodol ac yn gyfrifol, gan gynnwys rhwydweithiau rhannu cyfryngau a gwefannau rhwydweithio cymdeithasol.
- Dylech wneud gwiriadau rhesymol i sicrhau bod y wybodaeth rydych yn ei rhannu yn gywir, yn wir, nad yw'n camarwain y cyhoedd wrth rannu gwybodaeth ar rwydweithiau rhannu cyfryngau a gwefannau rhwydweithio cymdeithasol.

3. Gweithiwch o fewn terfynau eich gwybodaeth a'ch sgiliau

- Dylech sicrhau eich bod yn cael eich goruchwyllo'n briodol ar gyfer unrhyw dasg y gofynnir i chi ei chyflawni.
- Dylech ofyn am help pan fyddwch ei angen.
- Dylech fod yn ymwybodol o unrhyw gyfyngiadau sy'n berthnasol i chi wrth gyflawni tasgau penodol a dilyn unrhyw bolisiau perthnasol eich darparwr addysg neu ddarparwr lleoliadau ymarfer.
- Dylech gydnabod y bydd cyfleoedd i gyflawni unrhyw dasgau heb oruchwyliaeth yn amrywio yn ystod eich rhaglen ac y gallent ddibynnu ar eich gwybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau a phrofiad.

- Dim ond os teimlwch fod gennych y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad priodol i wneud hynny'n ddiogel ac yn effeithiol y dylech gyflawni tasg heb oruchwyliaeth.
- Dylech gymryd cyfrifoldeb am eich dysgu eich hun.
- Dylech fod yn ymwybodol o, a dilyn unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan eich darparwr addysg neu ddarparwr lleoliadau ymarfer ar gyfer gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.
- Dylech geisio, gwranddo ar, meddwl am ac ymateb yn rhagweithiol i adborth a roddir i chi.

4. Dirprwywch dasgau'n briodol

- Dylech gydnabod y bydd y cyfleoedd ar gyfer dirprwyo yn amrywio yn ystod eich rhaglen yn dibynnu ar eich gwybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau a phrofiad.
- Dylech drafod dirprwyo tasgau ag aelod priodol o staff eich darparwr addysg neu ddarparwr lleoliadau ymarfer cyn cymryd unrhyw gamau.
- Dylech ddilyn polisiau neu ganllawiau ar ddirprwyo a gweithio gydag eraill a luniwyd gan eich darparwr addysg neu ddarparwr lleoliadau ymarfer.
- Os byddwch yn rhoi tasgau i berson arall eu cyflawni ar eich rhan, dylech sicrhau bod ganddynt y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad i gyflawni'r tasgau'n ddiogel ac yn effeithiol a bod eich darparwr addysg neu ddarparwr lleoliadau ymarfer yn cefnogi'ch penderfyniad i wneud hynny.
- Os byddwch yn rhoi tasgau i berson arall eu cyflawni ar eich rhan, dylech sicrhau bod ganddynt y wybodaeth briodol i gyflawni'r tasgau'n ddiogel ac yn effeithiol.
- Dylech esbonio i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr os ydych wedi gofyn i berson arall ddarparu unrhyw ofal, triniaeth neu wasanaethau eraill.

5. Parchwch gyfrinachedd

- Dylech gadw gwybodaeth am ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn gyfrinachol, a'i defnyddio dim ond at y diben y'i rhoddwyd ar ei gyfer.
- Dylech ddilyn polisiau neu ganllawiau ar gyfrinachedd a luniwyd gan eich darparwr addysg neu ddarparwr lleoliadau ymarfer.
- Dylech ddileu unrhyw beth y gellid ei ddefnyddio i adnabod defnyddiwr gwasanaeth neu ofalwr o'r wybodaeth a ddefnyddiwr yn eich asesiadau neu waith academiaidd arall sy'n ymwneud â'ch rhaglen.
- Os bydd unrhyw wybodaeth gyfrinachol yn codi pryderon am ddiogelwch neu les rhywun, dylech drafod hyn yn brydlon ag aelod priodol o staff eich darparwr addysg neu ddarparwr lleoliadau ymarfer.

6. Rheolwch risg

- Dylech sicrhau eich bod yn cymryd pob cam priodol i gyfyngu ar y risg o niwed i ddefnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr ac eraill.
- Ni ddylech wneud unrhyw beth y credwch fydd yn rhoi rhywun mewn perygl neu mewn risg annerbyniol.
- Dylech ddilyn polisi eich darparwr addysg neu ddarparwr lleoliadau ymarfer ar reoli risg.
- Dylech fod yn ymwybodol y gallech roi eich defnyddwyr gwasanaeth neu chi eich hun mewn perygl os bydd eich iechyd corfforol neu feddyliol yn effeithio ar eich perfformiad neu farn.
- Dylech geisio cymorth priodol ac addasu eich astudio neu roi'r gorau i astudio os yw eich iechyd corfforol neu feddyliol yn effeithio ar eich perfformiad neu farn ac y gallai roi defnyddwyr gwasanaeth, chi neu eraill mewn perygl.
- Dylech gael cyngor gan feddyg, neu weithiwr proffesiynol priodol arall, os ydych yn poeni am eich iechyd corfforol neu feddyliol.

7. Adroddwch am bryderon ynghylch diogelwch

- Os ydych yn poeni am ddiogelwch neu les defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr neu eraill, dylech siarad ag aelod priodol o staff yn eich darparwr addysg neu ddarparwr lleoliadau ymarfer yn brydlon.
- Dylech hysbysu aelod priodol o staff eich darparwr addysg neu ddarparwr lleoliadau ymarfer os ydych yn dyst i fwlio, aflonyddu neu fygwth defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, dysgwyr neu aelod o staff yn eich darparwr addysg neu ddarparwr lleoliadau ymarfer.
- Dylech roi diogelwch a lles defnyddwyr gwasanaeth o flaen unrhyw bryderon personol, er enghraifft am asesiadau, marciau, gwaith arall sy'n gysylltiedig â'ch rhaglen, rhagolygon cyflogaeth neu enillion personol eraill.

8. Byddwch yn agored pan aiff pethau o chwith

- Dylech ddweud wrth aelod priodol o staff yn eich darparwr addysg neu ddarparwr lleoliadau ymarfer os oes rhywbeth wedi mynd o'i le mewn unrhyw ofal, triniaeth neu wasanaethau eraill rydych wedi'u cynnal yn ymwneud â defnyddiwr gwasanaeth.
- Dylech gydweithredu ag aelodau o staff eich darparwr addysg a darparwr lleoliadau ymarfer os oes rhywbeth wedi mynd o'i le mewn unrhyw ofal, triniaeth neu wasanaethau eraill rydych wedi'u cyflawni sy'n cynnwys defnyddiwr gwasanaeth. Dylech ddysgu o'r profiad hwn.
- Dylech ddweud wrth aelod priodol o staff yn eich darparwr addysg neu ddarparwr lleoliadau ymarfer os yw defnyddiwr gwasanaeth neu ofalwr am godi pryderon ynghylch unrhyw ofal, triniaeth neu wasanaethau eraill y mae wedi'u derbyn.
- Dylech gydweithredu ag aelodau o staff eich darparwr addysg a darparwr lleoliadau ymarfer i ymddiheuro i ddefnyddiwr gwasanaeth neu ofalwr pan fydd rhywbeth wedi mynd o'i le gyda'r gofal, y driniaeth neu'r gwasanaethau eraill rydych wedi'u cyflawni.

9. Byddwch yn onest ac yn ddibynadwy

- Dylech sicrhau nad yw eich ymddygiad yn niweidio ffydd a hyder y cyhoedd yn eich proffesiwn.

- Dylech fod yn ymwybodol y gall ymddygiad y tu allan i'ch rhaglen effeithio ar p'un a ydych yn cael cwblhau eich rhaglen neu gofrestru gyda ni ai peidio.
- Ni ddylech honni bod gennych wybodaeth, sgiliau, cymwysterau a phrofiad nad oes gennych chi.
- Dylech fod yn onest am eich rôl gyda defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr ac eraill.
- Dylech sicrhau bod eich ymddangosiad personol yn briodol ar gyfer amgylchedd eich lleoliad ymarfer.
- Dylech ddilyn polisi eich darparwr addysg neu ddarparwr lleoliad ymarfer ar bresenoldeb.
- Dylech ddilyn polisiâu eich darparwr addysg ar foeseg wrth wneud ymchwil.
- Dylech sicrhau bod yr holl gofnodion presenoldeb, cyflawniad ac asesu yn cael eu cwblhau'n gywir ac yn onest.
- Dylech gyfeirio'n briodol at waith pobl eraill a pheidio â'i drosglwyddo fel eich gwaith eich hun.
- Dylech roi adborth adeiladol ar ansawdd eich profiad addysgu a dysgu yn y lleoliad addysg ac ymarfer.
- Dylech ddarparu, cyn gynted â phosibl, unrhyw wybodaeth bwysig am eich ymddygiad, cymhwysedd neu iechyd i'ch darparwr addysg a darparwr lleoliad ymarfer.
- Dylech ddweud wrth eich darparwr addysg, cyn gynted â phosibl, os cewch eich rhybuddio am unrhyw drosedd, neu os cewch eich dyfarnu'n euog o unrhyw drosedd.
- Dylech gydweithredu ag unrhyw ymchwiliad i'ch ymddygiad neu gymhwysedd.

10. Cadwch gofnodion o'ch gwaith gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr

- Dylech sicrhau bod y cofnodion a gadwch yn glir ac yn gywir.
- Dylech helpu i ddiogelu cofnodion rhag cael eu difrodi, eu colli neu rhag cael eu cyrchu gan rywun heb ganiatâd.
- Dylech ddilyn polisi eich darparwr addysg neu ddarparwr lleoliadau ymarfer ar gadw cofnodion.

Rhagor o wybodaeth

Dogfennau defnyddiol eraill

Rydym wedi cynhyrchu sawl dogfen a allai fod yn ddefnyddiol i chi hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol.

- Cyfrinachedd –canllawiau i gofrestreion
- Canllawiau ar iechyd a chymeriad
- Iechyd, anabledd a dod yn weithiwr iechyd a gofal proffesiynol
- Safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg
- Safonau hyfedredd (sy'n benodol i'r proffesiwn)
- Datblygiad proffesiynol parhaus a'ch cofrestriad

Gallwch lawrlwytho copïau o'r dogfennau hyn oddi ar ein gwefan neu anfon e-bost atom yn y cyfeiriad isod.

Efallai y byddwch hefyd am gysylltu â'ch corff proffesiynol am ragor o gyngor.

Cysylltu â ni

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth amdanom ar ein gwefan (www.hcpc-uk.org). Yma rydym yn cyhoeddi gwybodaeth ynghylch cyrraedd ein safonau, y safonau eu hunain, cymorth gyda cheisiadau a llawer mwy.

The Health and Care Professions Council
Park House
184-186 Kennington Park Road
London
SE11 4BU

Ffôn: +44 (0)300 500 6184
E-bost: policy@hcpc-uk.org

Geirfa

Rhaglen gymeradwy

Rhaglen addysg a hyfforddiant yr aseswyd ei bod yn bodloni ein safonau addysg a hyfforddiant. Mae unrhyw un sy'n cwblhau rhaglen gymeradwy yn gymwys i wneud cais i ymuno â'n Cofrestr.

Gofal, triniaeth neu wasanaethau eraill

Term cyffredinol i ddisgrifio'r gwahanol gamau y gall myfyriwr eu cymryd wrth gwblhau eu rhaglen gymeradwy sy'n effeithio ar ei ddefnyddwyr gwasanaeth neu eraill. Gall hyn gynnwys gweithdrefnau diagnostig neu fonitro, darparu therapi neu gyngor.

Gofalwr

Unrhyw un sy'n gofalu am aelod o'r teulu, partner neu ffrind, neu'n rhoi cymorth iddo.

Ymddygiad

Ymddygiad person.

Cydsyniad

Caniatâd i fyfyrwr neu gofrestrai ddarparu unrhyw ofal, triniaeth neu wasanaethau eraill, a roddir gan ddefnyddiwr gwasanaeth neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran ar ôl derbyn yr holl wybodaeth y mae ei hangen yn rhesymol arnynt i wneud y penderfyniad hwnnw.

Dirprwyo

Pan yw myfyriwr yn gofyn i rywun arall gyflawni tasg ar ei ran. Efallai na fydd mater dirprwyo yn berthnasol i bob myfyriwr oherwydd nad ydynt yn ymarfer fel gweithwyr proffesiynol cymwys a chânt eu goruchwylio yn ystod eu rhaglen gymeradwy. Fodd bynnag, i rai myfyrwyr, wrth i'w gwybodaeth a'u sgiliau ddatblygu yn ystod eu rhaglen gymeradwy, gall y mater o ddirprwyo ddod yn fwy perthnasol.

Gwahaniaethu

Trin person neu grŵp o bobl yn annheg yn wahanol i bobl eraill neu grwpiau o bobl. Mae hyn yn cynnwys trin eraill yn wahanol oherwydd eich barn am eu ffordd o fyw, eu diwylliant neu eu statws cymdeithasol neu economaidd, yn ogystal â'r nodweddion a warchodir gan y gyfraith – oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu cred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Darparwr addysg

Y sefydliad sy'n cadw'r cyfrifoldeb cyffredinol am gyflwyno rhaglen gymeradwy.

Moeseq

Y gwerthoedd sy'n arwain ymddygiad neu farn rhywun.

Lleoliad ymarfer

Cyfnod o brofiad ymarferol sy'n rhan o raglen gymeradwy.

Addysgwr lleoliad ymarfer

Person sy'n gyfrifol am addysg myfyriwr yn ystod ei gyfnod o brofiad ymarferol. Gellir cyfeirio at y person hwn hefyd fel 'goruchwyliwr'.

Cofrestr

Rhestr o'r holl weithwyr iechyd a gofal proffesiynol hynny sy'n bodloni ein safonau o ran eu hyfforddiant, eu sgiliau proffesiynol a'u hymddygiad.

Cofrestrai

Person sydd ar ein Cofrestr ar hyn o bryd.

Cwmpas ymarfer

Y meysydd lle mae gan fyfyriwr neu unigolyn cofrestredig y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys darparu unrhyw ofal, triniaeth neu wasanaethau eraill i ddefnyddwyr gwasanaeth ac eraill.

Defnyddiwr gwasanaeth

Unrhyw un sy'n defnyddio neu'n cael ei effeithio gan wasanaethau cofrestreion neu fyfyrwyr, er enghraifft, cleifion neu gleientiaid.

Myfyriwr

Unrhyw un sy'n astudio ar hyn o bryd ar raglen gymeradwy sy'n golygu eu bod yn gymwys i ymuno â'n Cofrestr.

I wneud cais am y ddogfen hon mewn fformat arall,
e-bostiwch **policy@hcpc-uk.org**

© Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal 2024

Cod cyhoeddi: 20240901POLPUB GCEfS

www.hcpc-uk.org